




## Wrth eu gwên yr adnabyddir hwynt!

Ymddangosodd bicwnen goch neu *hornet* (chwith uchaf ac isaf) mewn llofft ym Maentwrog ar 21 Ebrill 2011 yn ystod tywydd braf a chynnes y gwanwyn [diolch i Gwilym Arthur]. Dywedodd entomolegydd CCGC Dr. Mike Howe bod y pry hwn yn ymledu i'r gogledd ac mai Sir Fynwy oedd ei fan fwyaf ogleddol tan yn ddiweddar. Cafodd y cofnod ei drosglwyddo i COFNOD, y system gofnodi bywyd gwyllt. Gwenyn meirch Norwy yw'r canol (uchod) a gwenyn meirch y coed yw'r un ar y dde, y ddau yn gyffredin iawn.



Dosbarthiad y bicwnen goch

## Sioe fawr y Morgrug

A hithau bellach yn fis Awst mi allwn ni ddisgwyl gweld y sioe ryfeddol honno o forgrug asgellog yn codi o'u nythod i hedfan ar eu dawns garwriaethol. Mae'r olygfa hon yn un o ryfeddodau byd natur, a dim ond dan amodau penodol iawn y bydd yn digwydd – ar b'nawn tawel a phoeth pan fydd lleithder yr awyr yn weddol uchel. Mi fydd gan pob un o'r 42 o wahanol rywogaethau o forgrug yng ngwledydd Prydain eu hamodau eu hunain, o ran tymheredd a lleithder, cyn y gwnân nhw heidio fel hyn. Mae hydnoed  $\frac{1}{2}^{\circ}$  o wres yn g'neud gwahaniaeth – â'r rheswm pam, ydi, i sicrhau, yn un peth, mai dim ond y rhywogaeth honno fydd ar ei hediad – i osgoi mynd ar draws rhai eraill. Rheswm arall ydi i sicrhau bod morgrug gwryw a brenhinesau o wahanol nythod, ond o'r un math, yn dod at ei gilydd ar yr adeg iawn – a hynny'n gymylau trwchus o forgrug o nythod dros ardal eang. Mae raid i'w cyd amseru nhw fod yn berffaith, am mai un cyfle sy' 'na yn y flwyddyn – i gael y dyddiad, yr awr, a'r amodau i'r dim. I ni, pan fydd heidiau o forgrug ar eu hediad, mi fydd yn arwydd o dywydd braf, ond bod 'na hefyd siawns dda o derfysg cyn bo hir.

Mae trefn dorfol y nythfa, efo'i chyfundrefn gymdeithasol gyd-ddibynnol ac i gyd yn gynnyrch brenhines, sy'n fam i'r nythfa gyfan, yn hanfodol i lwyddiant y cyfan. Mi roddodd cydweithredu fel hyn fantais aruthrol i'r morgrug i reoli ag egsplotio'u cynefin ac i amddiffyn eu hunain, neu'r nyth yn hytrach, rhag gelynyon. Fel y d'eudodd rywun: 'go brin y llwydda un morgrugyn i 'neud llawer, ond mi fedr cant godi twmpath a miliwn godi mynydd' (o bridd).

Ydach chi'n gyfarwydd â'r gwahanol enwau ar forgrug? Mae 'na enwau ar wahanol fathau – morgrug coch (mewn gerddi a chloddiau pridd), morgrug duon (yn nythu dan balmant yr ardd), morgrug melyn neu forgrug y maes (yn creu twmpathau) a morgrug y coed (sy'n fwy o faint, ac i'w cael dan goed). Mewn rhai ardaloedd mi gewch chi enwau eraill ar forgrug. Mawion, neu mowion yn yr hen Sir Ddinbych, tra, yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, arferid yr enwau mŷr, myrion (unigol: myrionen) yn nwyrain Morgannwg. Mi gewch chi hefyd morion, neu môr, (unigol: morionen), sydd yn debyg iawn i'r enw merion, merien (Llydaweg). O'r elfen myr, neu môr mae'r gair morgrug yn tarddu, ac mae o'n gyfuniad o mor a crug – y crug yn golygu twmpath neu fryncyn, fel yn Crug y bar neu Crughywel. Cyfeirio at y twmpath neu'r nythfa wna'r enw morgrug felly, sy'n dangos bod ein cyn deidiau ni'r Cymry yn ystyried bod y nythfa yn bwysicach na'r morgrugyn unigol.



Sgript Galwad Cynnar Twm Elias (cyhoeddwyd gyda chaniatad Radio Cymru)

Llun: morgrug dan garreg, Bethel, Môn, Gorrffennaf 2011

*Poeth, terfysg cudd, Bwlchtocyn 29 Awst 1942*

## Beth yw slatied

Ymddangosodd y gair "slatied" 65 o weithiau yn nyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych. 1925-1967. Pa fath o lwyth oedd "slatied" felly? Dechreuodd HJ son am slate a slatied yn 1925. Dyma gofnododd i'r perwyl: slatied o... wair (fynychaf), ...o ddrain, o frwyn, o bolion, o ganwydd (gair dirgel arall - cynigion rhywun?), o litter, o goed, o gerrig, o grybinion, o redyn (1936-7 yn unig), o geirch (1939 yn unig).

Meddai Robin Gwyndaf: Roedd gennym ni 'slêt', wastad yn 'Rhafod, Llangwm. Byddem yn ei chadw, fel arfer, ar waelod y buarth, yn agos i'r domen dail. Rwy'n cofio ei malu wedi i'w hoes ddod i ben, tua chanol y pumdegau, os iawn fy nghof (dyna oedd un o fy jobsus i yn hogyn, gofalu am goed tân). Byddem yn bachu'r slêt y tu ôl i'r ceffyl (ac wedi hynny y tractor, cyn dyddiau'r hydrolic a'r bocs haearn cyfleus). Defnyddiem hi i gario mân lwythi o gylch y buarth, megis tail [dywedodd y coediwr Dafydd



Cadwaladr mai "pickup" yr oes o'r blaen oedd slêt]. Ar y caeau, defnyddiem hi, er enghraifft, i gregu ac i gario polion at ffensio. Maint y slêt oedd tua 5 tr. o hyd, 4 tr. o led, a

throedfedd a hanner o uchter. Roedd yn gwbl wahanol, felly, i'r car llusg. Mwy fel bocs pren, hirsgwar, cadarn. Roedd breichiau blaen ac ôl y car llusg, yn un peth, yn llawer uwch. Un o fanteision amlwg y slêt oedd fod modd tynnu'r caead ôl mor ddiraffferth. Yn wir, byddai'n cael ei defnyddio yn aml iawn heb y caead. Y mae yn Cydymaith Byd Amaeth, Huw Jones (cyf. 4, tt. 73) gyfeiriadau gwerthfawr at y gair slêt, ond y mae'r darlun a gynhwysir, yn fy marn i, yn gamarweiniol. Car llusg y galwn i hwn. (Er gwybodaeth, ni chofiaf i (g. 1941) erioed weld car llusg yn 'Rhafod, er ei bod yn fferm fynyddig.). Ystyr slatiad/sletied, felly, rwyf bron yn sicr, yw 'llond slêt', neu 'lwyth ar y slêt'. Weithiau byddai ein hynganiad ni o'r gair slêt yn nes, dybiwn i, i 'slêd'. Ond hyd yn oed os mai'r sain 'd' sydd i'w chlywed yn enw'r offeryn defnyddiol hwn, y mae'n naturiol iawn i droi'r 'd' yn 't' wrth ddweud 'sletied/slatiad.

Dyma'r ymateb gawson ni gan Andrew Hawke, Prif Olygydd Geiriadur Prifysgol Cymru: "Diolch yn fawr am hyn. Rwyf wedi ychwanegu slipiau i wneud erthyglau ar slêt a slatiad/slatiad/sletied. Ymhelaethodd Andrew: Mae'r dyddiaduron wedi profi'n gloddfa wirioneddol ddefnyddiol i ni staff y Geiriadur: mae'n braf iawn cael lleoli a dyddio enghreifftiau llafar cynnar fel hyn, ac yn hawdd chwilio amdanynt ar wefan Llên Natur".

Diolch i Amgueddfa Werin Cymru am ganiatad i ddefnyddio'r llun

## Cais gan Mair, Llanelian:

Tybed wyddoch chi am ddewin dŵr yn rhywle plis? Mae Iwan Lloyd, sy'n byw yn wyrdd iawn ar ochor Mynydd Eilian 'ma, yn gwybod bod yna ddwr dan rhyw gae bach sydd ganddo ond dydio ddim yn gwybod lle i dyrchio i gael ato.

## Pós y mis



Llun: Gareth Pritchard

Am docyn llyfr £10, y capswn gorau ym marn y Golygydd i gyrraedd cyn y 15ed Awst trwy "Cysylltwch" ar wefan Llên Natur (bydd stori difyr, ffeithiol neu doniol am fywyd ar eich bwrdd adar yn cael ei chymryd i ystyriaeth hefyd). Yr ateb i bos mis Mehefin oedd coch - mae aeron gwyrdd pidyn y gog yn troi yn goch. Gan Dafydd Roberts cawsom yr ateb cywir cyntaf ac mae'r tocyn llyfr wedi ei gyrraedd.

## Peils Pen Llŷn



25 Mehefin 1928 "Powlio yr hen ddarn peil yn Porth Ysgo". (Cofnod Griffith Thomas, www.Rhiw.com). Sgwn i beth oedd y "peil" yma? Meddai Twm Elias: "Meddwl ydw i mai darn o goed sy' ganddo. [Roedd Griffith Thomas hefyd wedi cofnodi ym mis Rhagfyr 1922 "Yn Porth Ysgo..efo coed y piar"]. Roedd gweithfeydd Mango sylweddol ym Mhorth Ysgo ar un adeg - tybed mai darn o'r hen lanfa oedd wedi chwalu mewn ryw storm oedd yn derbyn ei sylw [cyn 1922?]? Neu damaid o longdrylliad? Meddai Tom Jones: mi roedd glanfa ym Mhorth Ysgo i lwytho manganis i fynd i Abertawe. Fe chwalodd yr hen lanfa, wedi i'r gwaith orffen, yn y stormydd. Fe fyddai llawer iawn o bobol Pen Llŷn yn hel broc môr ac un o'r piles o'r lanfa oedd yn ei bowlio yn sicir. Cofiaf fynd hefo nhaid a'i frawd i hel broc môr ac fe fyddai styllenod da i'w cael yn amal. Byddai taid yn gwneud clwydi a giatiau hefo nhw. Yr unig fai arnynt oedd ei bod yn andros o job curo hoilion iddynt mor galed oeddynt wedi eu piclo yn nŵr y môr - ond para am byth.

**Mwy am Porth Ysgo:** Yn Porth Ysgo ar yr 16eg o Rhagfyr 1819, daeth y "Brig" Bristol a'i chriw i ddiwedd trist iawn. Roedd ar ei ffordd o Gaerdydd i Lerpwl efo llwyth o haearn, pan gafodd ei dal mewn storm fawr ai gyrru ar y creigiau. (Credwn fod ei llwyth o haearn, wedi effeithio ar ei chwmpawd, a dyna pam ddaeth y Bristol mor bell oddiar ei chwr).  
www.rhiw.com

*mellten yn lladd llo, 3 Awst 1999, Cerrigydrudion*

## Pigion o'r Papurau Bro: Carreg y Dreiglwyd



**DIM OND LLE BU**



Dyma destun gwobr a gynnigwyd gan Gymdeithas Parc Eryri i ddod o hyd i'r "fandaliad" a symudodd y crogfaen hwn (llun uchaf) o'i le ym Mwllch Llanberis yn 1980. "Safai'r garreg siglo hon ym Mhen Bwlch, Llanberis, ac roedd hi'n pwyso rhwng 15 ac 20 tunnell. Byddai teithwyr lleol yn chwilio amdani wrth agosáu at

Ben y Pas ac yn rhyfeddu ei bod hi'n gorffwys mewn lle mor ansicr. Ar adegau o wynt cryf, yn ôl rhai, byddai'r garreg yn siglo...Os edrychir ar hen luniau o Fwlch Llanberis gwelir amryw o'r cerrig siglo hyn yn britho'r llethrau...Ond erbyn hyn nid oes llawer yn sefyll yn eu safleoedd gwreiddiol ac yn awr mae'r amlycaf ohonynt wedi ei symud yn ddianghenrhaid...Dywed yr hen stori mai arwydd fyddai cwmp y graig o lwyr oruchafiaeth Lloegr dros Gymru"

Yr hanes a'r lluniau o Eco'r Wyddfa 54, Rhagfyr 1980

## Glaw Magi




"Cymylau a glaw dros yr Wyddfa" oedd teitl gwaith 3d Magi a gafodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd eleni i flynyddoedd 5 a 6. "Fy Mro" oedd y testun – a chan ei bod yn gweld yr Wyddfa o ffenestr ei llofft ym Mhenisarwaun roedd Magi am wneud gwaith yn adlewyrchu hynny nes iddi benderfynu mai glaw a chymylau roedd hi'n eu gweld rhan fwyaf o'r adeg – felly dyma fynd ati i geisio creu rheiny – sydd, meddai hi, yn brydferth ac yn wahanol bob tro.

Cyfrannwyd y llun gan Anna Marie Robinson

Mae hwn yn wych Magi - oes yna obaith o weld mwy o dy waith celf am yr amgylchedd? Pa mor aml tybed mae glaw yn disgyn yn hollol syth i lawr yn Eryri, hynny yw, heb wynt yn ei chwythu.(Gol.)

Gareth Pritchard, Rhiwledyn tynnodd lun ffesant yn y rhifyn diwethaf. Ymddiheurwn am fethu a nodi hynny wrth y llun

## Morghrug adeiniog...eto



Ymhellach i erthygl Twm Elias (tudalen flaen) ar y morgrug, dyma grynodedb graffegol o'r cofnodion heidio morgrug hedfannog yn NYDDIADUR Llên Natur. Fel y gwelwch, cofnodwyd hyd at bedwar hedfaniad y flwyddyn, a'r cynharaf o bell ffordd oedd hwnnw yn 1933 o Gaerdydd. Fel mae'n digwydd, hwn ydi'r cofnod mwyaf manwl hefyd:

"Over my garden in Cardiff on the evening of July 3rd, 1933, after an exceptionally dry and hot day, a big flight of ants took place, the earliest date I have recorded. They immediately attracted a big collection of birds, mostly Swifts some two hundred, I calculated flying in a cone formation with the base and the largest number of birds nearest the ground, thinning to an apex which was very nearly out of sight to the naked eye. I fetched my field-glass (plus 8) and was then able to see that well above the highest Swifts, and quite invisible to the unaided sight, were five or six Black-headed Gulls which by their erratic movements were evidently also ant catching."

GCS Ingram British Birds June 1944

Dyma rai o'r cofnodion eraill am forgrug yn hedfan:

1946: 26 Medi, (cofnod hwyr); "Jackdaws hawking flying ants over Minehead"

1988: cwyno yn Brum bod nhw'n mynd i bob man - diwrnod braf cyntaf ers tro.

1994: "Gill yn son am forgrug adeiniog yn hedfan, Pant y Defaid, yn blastar dros y lon"

2002: "tawel bore ma, niwlog, "fog in August! There's something seriously wrong with the environment these days" (meddai cyflwynydd Radio Wales bore 'ma - 29 enghraifft yn y DYDDIADUR!). Morgrug adeiniog yn hedfan, criw mawr o wylannod penddu uwchben Seiont Nurseries Pontrug tua 1600"

2008: Morgrug adeiniog yn hedfan yn un o barciau Dulyn yn ôl yr Irish Times (RTE Lyric FM).

2008 (ail hedfaniad): Ifanwy yn dweud bod pla o forgrug adeiniog yn ei gardd yn Waunfawr...Don Perkins yn cofnodi "Overcast during the evening with flying ants emerging"

2008 (eto): Meddai Don Perkins eto: It was a very humid day and late in the afternoon flying ants appeared in the garden. Soon eight or more large dragonflies were overhead picking them off, it was a spectacular flying display"


2010: "tua 19:00 o'r gloch - ar noson drymaidd gweddol gynnes, penderfynodd trigolion cannoedd o nythod morgrug hedfan i'r awyr yn Rhuthun. Roedd na o leia 10 o nythod yn fy ngardd innau - i gyd yn arllwys morgrug adeiniog i'r awyr. Tybed sawl nyth sydd na yn Rhuthun i gyd? Rhai miloedd mae'n siwr" cofnododd Gwyn Williams

**Mellten yn taro twr eglwys Bangor, 12 Awst 1822**

## Cofnodion pryd llwyd Crowrach



DYDDIAD O FEHEFIN Y GWELLODD JOHN OWEN JONES Y PRY'LLWYD CYNTAF YN ARDAL BWLCHTOCYN 1924-48



Cadwodd John Owen Jones, Crowrach, Bwlchto cyn gofnod cyson o pryd gwelodd o (nid pryd cafodd ei bigo sylwer) bry'llwyd (y trychfilyn, nid y mamol) pob blwyddyn bron rhwng 1924 a 1948. Roedd 11 allan o'r 17 cofnod yn nodi "cyntaf". Yn 1939 cofnododd y pry'llwyd deirgwaith, yn y mis Mehefin arferol, ac wedyn ym misoedd Awst a Medi. 'Sgw i pam ei ddiddordeb yn y pry'llwyd? Mae tueddiad i'r dyddiad fynd yn gynharach dros y cyfnod. Pryd (os o gwbl) cawsoch chi eich brathu gyntaf gan bry'llwyd eleni?

## Sgrap



Mae cof lleol yn Abergwyngregyn bod y cadwyni sydd i'w gweld yma o flaen y gwesty yn y pentre wedi eu cymryd fel "sgrap" ar orchymyn y llywodraeth dan argyfwng y rhyfel. Dyma un cofnod hefyd gan Owain T. Griffiths, Rhosyffordd, Llangristiolus, Bodorgan, Môn dyddiedig 21 Mehefin 1940: "Y mae mudiad ar droed i hel y Scrap Iron sydd gennym ym mhob man hyd y wlad". Gellir dyfalu felly bod y llun hwn sydd ar gerdyn post sydd heb ei ddyddio, wedi ei dynnu cyn y dyddiad hwn (neu efallai tua'r dyddiad hwn gan sylwi bod y coed ar Faes y Gaer - y bryn y tu ol i'r gwesty yn y llun yn dangos olion o gael eu clirio. (Cafodd coed eu cynaeafu hefyd ar gyfer y "War Effort").

## Blwyddyn y sofliar

Daeth neges i raglen Galwad Cynnar ar 25 Mehefin am sofliar yn canu yn ddiweddar yn Sir Gaer - a recordiad arbennig o'r alwad "wet-my-lips..wet-my-lips". Dilynwyd y eitem gan gofnod arall ohono gan Tony White ger Llyn Coron, Môn. Ydi hi'n flwyddyn y sofliar tybed? Dyma gofnodion am soffleir mewn blynyddoedd a fu:

### Blynyddoedd y sofliar yng Nghymru:

- 1870: "numerous" gogledd Cymru (5 cofnod, Cymru a thu hwnt)
- 1880: "a brace" Glanusk, Aberhonddu
- 1929: "saw a single Quail", Corwen BB 1932
- 1931: "two coveys of Quail", Hendre, Sir Fflint, (BB Apr1932)
- 1933: "a bevy of Quail .. inhabited the stubble...near Lake Bala bbmar1935
- 1934: Brynlyn, Corwen
- 1976: cae yd, Llyn Ystumlyn, Cricieth
- 1977: "quail, in *Juncus maritimus* marsh, TAW Davies thought there were at least 3 birds" Morfa Harlech
- 1988: Cors Erddreiniog, Môn Mehefin 1988 (CCGC)
- 2009: Mochras (Rhys Jones) a Dinas Dinlle (RSPB) tua'r 9 Mehefin, a'r sylw cyffredinol hwn: "It has been a bumper weekend for COMMON



QUAIL (15 Mehefin) with very large numbers dispersing northwards from southern Europe, including 23 calling males in one small area in South Yorkshire. The most showy however are the 3 territorial males in Hertfordshire, giving exceptional views as they battle for supremacy on the track between the Barley fields between Baldock and Wallington"

Gwefan adar. <http://www.hnhs.org>

## Hwyl fôr Aberdaron



Newydd gyrradd nol o Aberdaron [26 Mehefin 2011]. Mi ddois i ar draws *Velilla* [hwyl fôr] yn hwylio tra ro'n i'n nofio. Wedi cael lluniau [un uchod]. Wedyn mi gerddis rywfaint o'r traeth a dod o hyd i rhyw hanner dwsin. Dwi rioed di gweld cyn lleied!

Llun a nodyn: Rhys Jones

## Mwy am bysgota â thryfar

Roedd rhai ffrindiau [ac o hyd am wn ni] yn pysgota'r 'pysgots tryfar' ar draeth Llanelli, sef cerdded yn droednoeth a theimlo symudiad dan draed yna forchio a dal wrth gwrs. Byddai rhai o'r staff yn mynd ar ôl yr Ysgol a dal y pysgod yn gyson.

Ken Nantlle